# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
# CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL

## Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) 2019 (Gorchymyn Diwygio Rhif 32) 2024

## Darpariaeth Arfaethedig a Diwygiadau i Orchmynion Traffig mewn amryw o leoliadau yn wardiau Cwm Aber, Aberbargod a Bargod, Tredegar Newydd a Phen-yr-heol

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ('y Cyngor'), wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ('Deddf 1984') a Deddf Rheoli Traffig 2004 ('Deddf 2004') a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, yn bwriadu gwneud Gorchymyn a fydd â'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019 drwy:

Darparu llinellau melyn dwbl ar Commercial Street, Senghenydd

- Ar ochr ddwyreiniol Commercial Street, o'r gyffordd â'r lôn sy'n cysylltu Commercial Street i Stanley Street, i gyfeiriad y gogledd i ffin ogleddol y garej, sef pellter o tua 46m.
- Ar ochr ddwyreiniol Commercial Street, o'r gyffordd â'r lôn sy'n cysylltu Commercial Street i Stanley Street, i gyfeiriad y de i ffin gyffredin Rhif 2 a Rhif 4 Commercial Street, sef pellter o tua 9m.
- Ar ochr ddeheuol y lôn sy'n cysylltu Commercial Street i Stanley Street, o'r gyffordd â Commercial Street i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o tua 6m.

Dileu cyfyngiad dim aros 9am–6pm ar School Street, Tredegar Newydd

- Ar ochr dde-orllewinol School Street, o ffin ogledd-orllewinol Rhif 2 School Street i gyfeiriad y de-ddwyrain i ffin ogledd-orllewinol Rhif 12 School Street, sef pellter o tua 30m.

Cael gwared ar y cyfyngiadau aros presennol a darparu 2 gilfach aros cyfyngedig ychwanegol Llun–Sad 8am–8pm am 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr, a newid y gilfach aros cyfyngedig bresennol i Llun–Sad 8am-8pm am 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr a darparu llinellau melyn dwbl ar St Cenydd Road, Trecenydd, Caerffili

- Cael gwared ar y gilfach aros cyfyngedig bresennol Llun–Sad 8am–6pm am 30 munud ar ochr ogledd-ddwyreiniol St Cenydd Road, o ymyl gogledd-orllewinol adeilad Rhif 104 St Cenydd Road i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o tua 13m, a'i disodli â chilfach aros cyfyngedig Llun–Sad 8am–8pm am 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr am bellter o tua 13m.
- Cael gwared ar y cyfyngiadau aros cyfyngedig presennol a'u disodli â chilfach aros cyfyngedig Llun–Sad 8am–8pm am 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr, ar ochr ogledd-ddwyreiniol St Cenydd Road o ymyl gogledd-orllewinol adeilad Rhif 106 (Milfeddygfa) St Cenydd Road i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o tua 7m
- Cael gwared ar y cyfyngiadau aros cyfyngedig presennol a'u disodli â chilfach aros cyfyngedig Llun–Sad 8am–8pm am 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr, ar ochr ogledd-ddwyreiniol St Cenydd Road o ffin ogledd-orllewinol Rhif 100 St Cenydd Road i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o tua 12m
- Cael gwared ar y cyfyngiadau aros cyfyngedig presennol a'u disodli â llinellau melyn dwbl ar ochr ogledd-ddwyreiniol St Cenydd Road, o ymyl gogledd-orllewinol adeilad Rhif 104 St Cenydd Road i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 4m.
- Cael gwared ar y cyfyngiadau aros cyfyngedig presennol a'u disodli â llinellau melyn dwbl ar ochr ogledd-ddwyreiniol St Cenydd Road, o ymyl gogledd-orllewinol adeilad Rhif 100 St Cenydd Road i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 4m.

Darparu llinellau melyn dwbl ar William Street a Tŷ Fry Road, Aberbargod

- Ar ochr dde-orllewinol Tŷ Fry Road o'r gyffordd â William Street i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o tua 10m
- Ar ochr dde-orllewinol Tŷ Fry Road o'r gyffordd â William Street i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 5m
- Ar ochr ogledd-orllewinol William Street o'r gyffordd â Tŷ Fry Road, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o tua 10m
- Ar ochr dde-ddwyreiniol William Street, o'r gyffordd â Tŷ Fry Road i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o tua 10m

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft, cynlluniau sy'n dangos y rhannau o'r briffordd dan sylw a datganiad o resymau'r awdurdod traffig dros wneud y Gorchymyn yn www.caerffili.gov.uk/GorchmynionRheoleiddioTraffig a gellir hefyd eu harchwilio yn rhad ac am ddim drwy apwyntiad yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gwasanaethau Cyfreithiol, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG rhwng 09:00 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus), rhwng 07/08/2024 a 30/08/2024, gan ddyfynnu'r cyfeirnod SC/5011957.

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr Isadran Rheoli Traffig drwy ffonio 01443 866948 neu e-bostio godsat@caerffili.gov.uk

Dylid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rheswm dros wneud hynny, drwy e-bostio GorchmynionTraffig@caerffili.gov.uk erbyn 30/08/2024, neu ffonio **01443 866948**.
Gall gohebiaeth gael ei datgelu yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Dyddiad: **7 Awst 2024**

Marcus Lloyd, Pennaeth Isadeiledd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,
Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG

## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and On Street Parking Places) Consolidation Order 2019 (Amendment Order No 32) 2024

## Proposed Provision and Amendments to Traffic Orders at Various locations within the Aber Valley, Aberbargoed and Bargoed, New Tredegar and Penyrheol Wards

**NOTICE** is hereby given that Caerphilly County Borough Council (the 'Council') in exercise of their powers under the Road Traffic Regulation Act 1984 (the '1984 Act') and the Traffic Management Act 2004 (the '2004' Act) and all other enabling powers and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the 1984 Act propose to make an Order the effect of which is to amend the Caerphilly County Borough Council (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and On Street Parking Places) Consolidation Order 2019 by the:

Provision of Double Yellow Lines (DYLs) at Commercial Street, Senghenydd

- On the eastern side of Commercial Street from its junction with the lane connecting Commercial Street to Stanley Street, in a northerly direction to the northern boundary of the garage, a distance of approximately 46m.
- On the eastern side of Commercial Street from its junction with the lane connecting Commercial Street to Stanley Street, in a southerly direction to the common boundary of No's 2 / 4 Commercial Street, a distance of approximately 9m.
- On the southern side of the lane connecting Commercial Street to Stanley Street, from its junction with the Commercial Street in a northeasterly direction for a distance of approximately 6m.

Removal of No Waiting restriction 9am – 6pm at School Street, New Tredegar

- On the southwestern side of School Street from the northwestern boundary of No 2 School Street in a southeasterly direction to the northwestern boundary of No 12 School Street, a distance of approximately 30m

Removal of existing waiting restrictions and provision of 2 extra limited waiting bays Mon-Sat 8am-8pm for 1 hour and no return within 1hour and change existing limited waiting bay to Mon-Sat 8am-8pm for 1 hour and no return within 1hour and provision of DYLs at St Cenydd Road, Trecenydd, Caerphilly

- Remove existing limited waiting bay Mon-Sat 8am-6pm for 30mins on the northeastern side of St Cenydd Road from the northwestern building edge of No 104 St Cenydd Road in a southeasterly direction for a distance of approximately 13m and replace with a limited waiting bay Mon-Sat 8am-8pm for 1 hour and no return within 1hour for a distance of approximately 13m.
- Remove existing limited waiting restrictions and replace with limited waiting bay Mon-Sat 8am-8pm for 1 hour and no return within 1hour on the northeastern side of St Cenydd Road from the northwestern building edge of No 106 (Vets) St Cenydd Road in a southeasterly direction for a distance of approximately 7m
- Remove existing limited waiting restrictions and replace with limited waiting bay Mon-Sat 8am-8pm for 1 hour and no return within 1hour on the northeastern side of St Cenydd Road from the northwestern boundary of No 100 St Cenydd Road in a southeasterly direction for a distance of approximately 12m
- Remove existing limited waiting restrictions and replace with DYLs on the northeastern side of St Cenydd Road from the northwestern building edge of No 104 St Cenydd Road in a northwesterly direction for a distance of approximately 4m
- Remove existing limited waiting restrictions and replace with DYLs on the northeastern side of St Cenydd Road from the northwestern building edge of No 100 St Cenydd Road in a northwesterly direction for a distance of approximately 4m

Provision of DYLs at William Street and Ty Fry Road, Aberbargoed

- On the southwestern side of Ty-Fry Road from its junction with William Street in a southeasterly direction for a distance of approximately 10m
- On the southwestern side of Ty-Fry Road from its junction with William Street in a northwesterly direction for a distance of approximately 5m
- On the northwestern side of William Street from its junction with Ty-Fry Road in a southwesterly direction for a distance of approximately 10m
- On the southeastern side of William Street from its junction with Ty-Fry Road in a southwesterly direction for a distance of approximately 10m

A copy of the draft Order, plans showing the parts of the highway affected and a statement of the traffic authority's reasons for making the Order can be viewed at www.caerphilly.gov.uk/TrafficRegulationsOrders and may also be inspected free of charge by appointment at Caerphilly County Borough Council Legal Services, Penallta House, Tredomen Park, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG between the hours of 09:00 and 17:00 Monday to Friday (excluding bank holidays and public holidays) from 07/08/2024 to 30/082024 quoting reference SC/5011957.

Further information can be obtained from the Traffic Management Section, telephone 01443 866948 or email godsat@caerphilly.gov.uk

Any objection to the proposed Order with the grounds for making it should be made by email to trafficorders@caerphilly.gov.uk by 30/08/2024, telephone **01443 866948**.
Correspondence may be disclosed as required by the Freedom of Information Act.

Dated: **7th August 2024**

Marcus Lloyd, Head of Infrastructure, Caerphilly County Borough Council,
Penallta House,Tredomen Park, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG